Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tlodi Plant - Ffurflen Gais Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau

## Cronfa grant i gefnogi arloesi a chydweithio ar y mater o fynd i'r afael â thlodi plant

**Paratowyd y canllawiau hyn i helpu mudiadau a grwpiau i sicrhau eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth at ddibenion asesu eu cais.**

### Gwybodaeth am y Grant

Mae'r grant ar gael i gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector (sy'n cynnwys grwpiau ffydd) yn eu hymdrechion i gyflawni'r canlynol:

- Gwella gallu sefydliadau i ffurfio trefniadau cydweithio i fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o 5 amcan y Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 | LLYW.CYMRU

- Cefnogi mudiadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella cyfathrebu effeithiol, gweithio ar y cyd a throsglwyddo gwybodaeth wrth ymateb i dlodi plant ar lefel ranbarthol, leol neu gymunedol.

Mae cyllid grant ar gael i ddatblygu, cryfhau ac ychwanegu gwerth at drefniadau cydweithio sydd eisoes yn eu lle neu i sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Gall hyn gynnwys costau staff i ryddhau capasiti i hwyluso trefniadau cydweithredol.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r cyllid grant Tlodi Plant: Arloesi a Chefnogi Cymunedau. Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi brosiect a allai fod yn gymwys i gael cymorth a'ch bod yn dymuno gwneud cais, ewch i'r adran 'y broses ymgeisio'.

Rhaid i gynigion am gyllid grant roi sylw penodol i'r adran am y math o weithgareddau y gellir eu cefnogi fel rhan o'r grant hwn. Sylwer – dylech gymryd yn ganiataol na fydd gan y tîm didoli unrhyw wybodaeth flaenorol am eich sefydliad neu brosiect felly bydd angen i ymgeiswyr am grant ddarparu digon o wybodaeth i ddangos eu bod yn gymwys, ac i egluro sut y bydd eu prosiect yn bodloni dibenion y grant.

Ein nod yw cyrraedd Cymru gyfan drwy'r gyfres o geisiadau llwyddiannus. Rydym yn croesawu ceisiadau sy'n gallu cynnig ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg i gymunedau Cymraeg eu hiaith a'r rhai sy'n diwallu anghenion iaith eraill fel sy'n berthnasol i'w cymuned.

Mae'r cyllid hwn yn gyfyngedig o ran amser ond, lle bo'n bosibl, dylid ei ddefnyddio i greu strwythurau cydweithio a allai barhau pan ddaw'r cyllid i ben. Dylai eich cais egluro sut y bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi yn elwa o'r trefniant cydweithio ychwanegol hwn a ariennir gan grant unwaith y bydd y cyllid wedi dod i ben.

Y cyfanswm sydd ar gael i'w ddosbarthu dan y gronfa hon yw **£1,495,000**. Bydd y cyllid grant yn cael ei rannu'n ddau bot gwahanol:

- Lefel Gymunedol a Lleol – hyd at £25,000 ar gael i bob cais llwyddiannus. Cymuned – Ardal sydd wedi'i lleoli'n agos yn ofodol e.e. tref, pentref neu gymdogaeth, a Lleol – ardal yn cynnwys sawl cymuned sy'n agos at ei gilydd yn ddaearyddol e.e. awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) neu ardal ehangach a allai ffinio â mwy nag un awdurdod lleol.

- Lefel ranbarthol – hyd at £125,000 ar gael i bob cais llwyddiannus (Gallai'r cyllid gefnogi ardal o fwy nag un awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) mewn un ardal ddaearyddol yng Nghymru a/neu o fewn ôl troed partneriaeth ranbarthol sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft (ond heb fod yn gyfyngedig i) ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgor Corfforaethol, Bwrdd Iechyd neu Bartneriaeth Ranbarthol).

Nid oes unrhyw beth yn ein canllawiau/meini prawf a fydd yn eich atal rhag gwneud cais am y ddau bot o gyllid os ydych yn bodloni'r meini prawf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddwn yn ystyried meini prawf fel dosbarthiad daearyddol y grant yn gyffredinol.

Gan mai dim ond swm penodol o gyllid sydd gennym i'w ddyfarnu, bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch pa brosiectau y gallwn eu hariannu, ac felly, yn anffodus, bydd hynny'n golygu y bydd rhai prosiectau na fydd modd i ni eu hariannu.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael ffurflen hunanasesu pro-fforma i'w llenwi a'i hadolygu bob hyn a hyn fel rhan o'r broses monitro grantiau.
Rhaid darparu hunanasesiad pro-fforma terfynol wedi'i gwblhau ac adroddiad ar y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd cyfnod y grant.

Bydd angen i bob cais ddarparu tystiolaeth o sut y bydd eu prosiect yn cael ei werthuso ac yn darparu gwerth am arian. Ar gyfer prosiectau dros £25,000, bydd yn ofynnol i geisiadau ddangos sut y maent yn bwriadu rhannu (a, lle bo'n bosibl, ymgorffori) yr hyn a ddysgwyd o'u cais llwyddiannus.

Pan fydd gwariant gwerthuso ffurfiol yn cael ei gynnwys mewn ceisiadau prosiect, dylai’r rhain gael eu dangos yn glir a dylent fod yn gymesur â lefel y cyllid y ceisir amdano.

I gefnogi sefydliadau sy’n ystyried gwneud cais am y grant hwn, byddwn yn cynnal gweithdai holi ac ateb i ateb cwestiynau am y broses. Cynhelir 3 gweithdy rhwng 5 a 14 o Fawrth.

## Y broses ymgeisio

Cyn cwblhau eich cais, dylech adolygu’r canllawiau a’r gofynion grant a nodir isod.

Rhaid cyflwyno cais wedi’i gwblhau’n llawn i’r **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru** blwch post **erbyn hanner nos ddydd Sul 13 Ebrill 2025 fan bellaf**.

**Ni roddir estyniad i’r dyddiad cau hwn, ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.**

Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen gais. Cyhoeddir derbynneb drwy e-bost am geisiadau a gyflwynir yn gywir.

Ar ôl i’r cyfnod ymgeisio ddod i ben, dechreuir arfarnu eich cais llawn. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ganlyniad arfarnu’r cais.

## Amserlen ymgeisio

Mae’r amserlen ar gyfer ceisiadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 5 Mawrth 2025 | Y broses o wneud cais am grant yn agor |
| Dydd Sul 13 Ebrill 2025 | Dyddiad cau i geisiadau wedi’u cwblhau gael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. |
| Wythnos yn dechrau 14 Ebrill 2025 | Bydd ceisiadau’n cael eu hystyried gan banel. |
| Wythnos yn dechrau 5 Mai 2025 | Bydd ymgeiswyr am grant yn cael gwybod am y penderfyniad ynghylch cyllid. |
| Wythnos yn dechrau 12 Mai 2025 | Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus am grantiau yn cael eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip. |

## Canllawiau grant

Rydym yn argymell eich bod yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus er mwyn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen gais.

Mae'r grant Tlodi Plant: Arloesi a Chefnogi Cymunedau yn gynllun **grant refeniw** a dim ond prosiectau sydd angen **cyllid refeniw** fydd yn cael eu cymeradwyo. Holwch eich sefydliadau am eich diffiniadau cyfrifyddu.

## Meini prawf grant – Cymhwysedd 2025/26

Wrth gyflwyno cais, bydd disgwyl i chi fodloni'r **holl** feini prawf cymhwysedd canlynol:

**Nodi sefydliad arweiniol** – rhaid nodi sefydliad arweiniol fel derbynnydd y grant gan ddarparu dau enw cyswllt ar gyfer y prosiect (rhaid i'r rhain fod o sefydliadau/adrannau ar wahân).

**Dangoswch angen a manteision y prosiect** – bydd angen i chi ddangos sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael ag un neu fwy o Amcanion y Strategaeth Tlodi Plant, ac amlinellu pa amcan(ion) y mae eich prosiect yn ymwneud â nhw.
Mae angen i'r holl weithgareddau a fwriedir yn y cynnig fod o fewn cwmpas y grant, a heb fod yn cynnwys unrhyw weithgarwch anghymwys.

**Profiad uniongyrchol** – Bydd angen i'ch prosiect gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi yn y gwaith o ddatblygu a / neu weithredu eich prosiect.

**Cydweithio** – Wrth gyflwyno eich cais, rhaid darparu tystiolaeth o gadarnhad ysgrifenedig gan y sefydliadau sydd wedi mynegi ymrwymiad i gymryd rhan yn y prosiect.

Bydd angen i sefydliadau sicrhau bod datganiad yr ymgeisydd yn cael ei lenwi wrth gyflwyno eich cais.

Croesewir ceisiadau gan sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr neu gyrff gwerthuso neu ymchwil. Dylai gweithgarwch gwerthuso cymesur fod yn ystyriaeth ar gyfer pob prosiect. Pan fydd gwariant gwerthuso ffurfiol yn cael ei gynnwys fel costau ychwanegol mewn ceisiadau prosiect, dylai'r rhain gael eu dangos yn glir a dylent fod yn gymesur â lefel y cyllid a geisir.

## Gweithgareddau anghymwys

**Ni ellir** defnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael i ariannu gwasanaeth sy'n bodoli eisoes nac aelodau o dîm craidd. Ni ellir defnyddio'r cyllid ychwaith ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Gweithgareddau y mae cyllid arall yn cael ei dderbyn ar eu cyfer, oni bai fod ychwanegedd amlwg i'r gwaith.
- Costau craidd ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r prosiect.
- Cyllid i ddarparu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, oni bai fod achos clir dros brofi model newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n targedu plant mewn tlodi yn benodol, neu deuluoedd plant mewn tlodi, y gellid ei integreiddio i ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol pe bai tystiolaeth o effeithiolrwydd
- Gallu ychwanegol i gyflawni swyddogaethau statudol ar gyfer rhoi gwybod am dlodi plant neu ofynion statudol eraill
- Gwneud elw, gweithgareddau codi arian neu weithgareddau sy'n arwain at fudd preifat
- Costau wrth gefn, benthyciadau, gwaddolion, neu log
- Gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol
- TAW lle gellir ei hawlio'n ôl
- Gofynion Statudol
- Teithio dramor

Croesewir gweithgareddau cydweithredol sy'n cynnwys y sector preifat ond nid yw'r cyllid ar gael i ariannu unrhyw gostau uniongyrchol i bartner yn y sector preifat.

## Llenwi eich ffurflen gais

Er mwyn sicrhau Arloesi a Chydweithio, bydd angen i'ch cais:

- fod yn wahanol i'ch rhaglen waith reolaidd ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y grant.
- disgrifio pam mae angen cydweithio, sut y bydd yn ychwanegu gwerth a sut y bydd yn cynnwys/hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth leol.
- dangos y bwriedir i gryfhau / chwalu rhwystrau i gydweithio effeithio ar well profiadau a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi yn y dyfodol.
- bod wedi'i lunio i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau sy'n arloesol ac yn gydweithredol rhwng sectorau a/neu bartneriaethau rhanbarthol ar fater mynd i'r afael â thlodi plant.

## Adran A – Crynodeb o'r Prosiect

Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg cryno o'r prosiect, ynghyd â'r wybodaeth ofynnol am y sefydliadau arweiniol a'r sefydliadau partner, lle y bydd y prosiect yn cael ei gynnal, a faint o gyllid y gofynnir amdano. Rhowch yr holl wybodaeth y gofynnir amdani **o fewn y cyfrif geiriau**. Cofiwch efallai nad yw'r sawl sy'n didoli'r cais yn gyfarwydd â'ch sefydliad na'ch prosiectau blaenorol,

a hyd yn oed os ydych chi wedi derbyn cyllid drwy'r grant hwn o'r blaen, dylai hwn gael ei drin fel cais newydd.

Rydyn ni eisiau deall sut y byddwch chi'n cydweithio i gyflawni nodau'r prosiect, a yw'n gydweithrediad newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes, beth fydd pob sefydliad yn ei wneud i gyfrannu at y prosiect, ac os yw'n gydweithrediad newydd, sut mae hynny wedi cael ei drefnu.

## Adran B – Beth yw canolbwynt eich prosiect

Mae'r adran hon yn mynd at galon eich cais a sut y bydd y prosiect yn ceisio mynd i'r afael ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a nodir yng nghanllawiau'r grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau.

Yn unol â diben y grant, rhaid i bob cais nodi sut y byddant yn gweithio'n gydweithredol (Amcan 5) a rhaid iddynt ddangos sut y bydd y prosiect yn cefnogi o leiaf un Amcan ychwanegol h.y. 1, 2, 3 neu 4 y Strategaeth Tlodi Plant. Er y gall rhai prosiectau geisio cyflawni yn erbyn mwy nag un Amcan ychwanegol, mae'r rhai sy'n cyflawni yn erbyn un yn unig yn dderbyniol. Ym mhob achos, sicrhewch eich bod yn darparu digon o dystiolaeth yn erbyn yr Amcan(ion) a ddewiswyd a chadwch o fewn yr uchafswm geiriau.

Pam fod angen y prosiect?

Yn yr adran hon, rydym eisiau deall pam fod angen y prosiect hwn. Er enghraifft, efallai eich bod mewn ardal o amddifadedd uchel, heb unrhyw gyfleusterau/prosiectau ar hyn o bryd ac efallai fod rhywbeth penodol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth nawr ac yn y dyfodol, yn eich barn chi.

Fel rhan o'r adran hon, dywedwch wrthym am unrhyw ddata sydd gennych i ddangos tystiolaeth o'r bwlch yr ydych yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Gallwch gynnwys tystiolaeth o faint o blant sy'n byw mewn tlodi yn yr ardal a nodwyd a faint o wasanaethau eraill a ddarperir etc. Nid yw dolen at ffynhonnell tystiolaeth yn unig yn ddigonol, mae angen i chi gynnwys yr wybodaeth allweddol sy'n berthnasol i'r grant hwn a'ch cais am brosiect, yn eich barn chi, ochr yn ochr â dolen i'r ffynhonnell.

Sut y byddwch chi'n cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

Rydyn ni eisiau gweld y bydd y bobl rydych chi'n ceisio eu cefnogi drwy'r prosiect hwn yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, datblygu a/neu weithredu'r prosiect. Rhowch unrhyw fanylion am sut mae pobl â phrofiad uniongyrchol wedi cyfrannu at eich prosiect – gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ymgysylltu â dylunio gwasanaethau eraill, prosesau strategaeth etc. Rhowch fanylion lle bo'n berthnasol ynghylch sut y bydd pobl â phrofiad uniongyrchol yn cyfrannu at weithredu, monitro a gwerthuso'r prosiect.

## Adran C – Cynllun y prosiect a’r canlyniadau

Yn yr adran hon, rydym am weld yn glir sut y byddwch yn rhedeg eich prosiect dros gyfnod ei oes. Rhaid i hyn gynnwys llinell amser fer o ddechrau’r prosiect i ddiwedd y prosiect. Rydym yn deall y gall pethau fel recriwtio gymryd peth amser, felly defnyddiwch yr adran hon i nodi a fydd hynny’n effeithio ar amser dechrau, neu a fyddwch yn gallu dechrau ar unwaith. Rhaid cwblhau’r gwariant erbyn **31 Mawrth 2026**. Ystyriwch sut y byddai eich prosiect yn cael ei gyflawni o fewn yr amserlen hon pe byddai eich recriwtio yn arafach na'r disgwyl.

Dylai’r adran hon gynnwys canlyniadau clir a fydd yn cael eu defnyddio i fesur effaith a chynnydd eich gwaith fel rhan o’r broses fonitro. Er enghraifft – erbyn mis tri, bydd gennych x o bobl yn gweithio ar y prosiect, erbyn mis chwech byddwch wedi ymgysylltu â x o bobl / sefydliadau ac yn y blaen.

Dylai’r canlyniadau fod yn gymysgedd o rifau a naratif i adrodd y darlun llawn.

<u>Sut y byddwch yn monitro eich cynnydd</u>

Bydd angen i chi hefyd gynnwys yn yr adran hon sut mae eich prosiect yn adeiladu ar adran cynllun y prosiect a’r canlyniadau uchod. Pan fyddwch yn llenwi’r adran hon, dywedwch wrthym sut y byddwch yn monitro cynnydd y grant. Dylai hyn gynnwys beth a pha mor aml y byddwch yn monitro. Er enghraifft, byddwn yn monitro’n fisol i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nifer o bobl y disgwylir iddynt gael eu cefnogi bryd hynny, byddwn yn defnyddio ffurflenni adborth/trafodaeth i nodi lle gallai fod angen gwella neu newid pethau i’n helpu i sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i’r bobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw, neu i’n helpu i ddathlu llwyddiannau.

Dylech hefyd ddefnyddio’r adran hon i ddweud wrthym sut y byddwch yn gwerthuso’r prosiect ar y diwedd. Dylai hyn fod yn gymesur â maint eich cynnig a gallai fod drwy werthusiad anffurfiol a wneir gan arweinwyr prosiectau, neu drwy sefydliad allanol. Sylwch fod yn rhaid i werthusiad gynnwys lleisiau’r bobl rydych chi wedi ceisio eu helpu fel rhan o’r prosiect, felly yn yr adran hon dywedwch wrthym sut byddwch chi’n sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwerthusiad diwedd y prosiect fydd eich cyfle chi i adrodd eich stori am sut mae’r prosiect wedi gweithio – beth mae wedi’i gyflawni a’r effaith mae wedi’i chael ar y bobl neu’r sefydliadau rydych chi wedi gweithio gyda nhw.

Un o ofynion y grant yw eich bod yn cwblhau adroddiadau monitro fel rhan o’ch proses hawlio chwarterol. Rhaid gwneud hyn ar y ffurflen a ddarperir gan swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd yn ymwneud â’r targedau a nodir yn y cynnig grant.

Fel rhan o’ch cais, dylech amlinellu’r adnoddau y byddwch yn eu hymrwymo i weithgareddau monitro a gwerthuso a darparu amserlen arfaethedig ar gyfer y gweithgaredd. Gallwn dynnu’r cyllid a ddyfarnwyd yn ôl a/neu ei gwneud yn ofynnol i chi ad-dalu’r cyfan neu ran o’r cyllid os na fodlonir unrhyw un/rai o’r meini prawf a nodir uchod.

Rhaid i chi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, gael gafael ar wybodaeth am gyflawni gweithgarwch a ariennir drwy grant.

## Adran D – Rheolaeth Ariannol

Dylai'r adran hon ddweud wrthym pa gyllid rydych chi'n gofyn amdano fel rhan o'ch cais ac ar gyfer beth fydd y cyllid hwnnw. Rydym am ddeall a yw hyn yn rhan o brosiect sydd eisoes wedi'i gynllunio, ac a oes cyllid arall yn cael ei geisio neu eisoes wedi'i gadarnhau ar gyfer hyn.

Mae angen inni fod yn siŵr bod y cyllid hwn yn mynd i ddarparu ychwanegedd i unrhyw brosiectau presennol, nad yw'n cael ei gyllido ddwywaith, a phwy yw'r cyllidwyr eraill ar gyfer y gwaith hwn.

Dylid defnyddio'r adran hon hefyd i ddweud wrthym am unrhyw gyllid ychwanegol y byddwch yn ei ddefnyddio i redeg y prosiect hwn. Dylai hefyd ddweud wrthym sut y byddwch yn ceisio sicrhau gwerth da drwy gydol y broses, er enghraifft sut y byddwch yn caffael unrhyw wasanaethau, yn defnyddio unrhyw adnoddau sydd gennych eisoes, yn defnyddio'r dull mwyaf darbodus o deithio (lle bo hynny'n bosibl).

<u>Gwerth am Arian</u>

Yn yr adran hon, bydd angen i'ch cais ddangos profiad a llwyddiant eich tîm wrth gyflawni prosiectau tebyg, dangos sut mae eich prosiect yn cynnig y gwerth gorau am y gost a bydd angen i chi egluro sut bydd eich prosiect yn parhau i gyflawni gwerth y tu hwnt i gyfnod y grant (os yw'n berthnasol - sut y bydd y prosiect yn arwain at arbedion cost hirdymor).

## Adran E – Strategaeth Ymadael

Pwrpas y grant yw helpu i sbarduno gweithio mewn partneriaeth i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl y mae tlodi yn effeithio arnynt ledled Cymru. Rydyn ni eisiau deall effeithiau tymor hwy posibl y prosiect hwn, beth fydd yn digwydd pan fydd y cyllid yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod y grant, a sut y byddwch chi'n ceisio sicrhau bod y gwaith partneriaeth yn parhau lle bo hynny'n bosibl.

Dylid defnyddio'r adran hon i adeiladu ar y monitro a'r gwerthuso yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt yn adran C – ac amlinellu sut y byddwch yn symud ymlaen pan ddaw'r cyllid i ben. Dim ond ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 y mae cyllid ar gael ac ni ddylai unrhyw strategaeth ymadael ddibynnu ar barhad y cyllid o'r grant hwn.

## Y broses ar ôl derbyn ceisiadau

Byddwch yn cael ymateb yn cadarnhau bod eich cais wedi dod i law. Os na fyddwch yn ei dderbyn o fewn dau ddiwrnod gwaith i gyflwyno eich cais,

cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at: **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru**

Bydd ceisiadau'n cael eu harfarnu gan banel asesu. Gyda dull gweithredu trawslywodraethol, bydd y panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â phrofiad perthnasol o gynigion prosiectau mewn perthynas â thlodi plant. Bydd y panel yn asesu ac yn sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf a nodir yn y canllawiau.

Bydd y panel asesu yn adolygu ceisiadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Ebrill 2025 ac, yn amodol ar nifer y ceisiadau, yn anelu at roi gwybod i bob ymgeisydd am statws eu cais ddechrau'r wythnos sy'n dechrau 5 Mai 2025.

Byddwch yn derbyn e-bost gan **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru** yn datgan a fu eich cais yn llwyddiannus o ran cael cyllid. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cyfle i ofyn am adborth ar y penderfyniad.

Bydd cyllid grant yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau yn amodol ar y telerau ac amodau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn llythyr dyfarnu grant ffurfiol.

Dylid codi unrhyw ymholiadau ynghylch y nodyn cyfarwyddyd hwn gyda'r tîm Trechu Tlodi drwy e-bost:
**tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru**

## Y drefn apelio a chwyno

Nid oes unrhyw sail dros apelio yng nghyswllt ceisiadau aflwyddiannus dan y grant Tlodi Plant: Arloesi a Chefnogi Cymunedau. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru yn derfynol.

Ymdrinnir â chwynion dan drefn gwynion Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o gyngor ar sut i gwyno ar gael gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378

e-bost: **complaints@gov.wales**

Gwefan: **llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru**

Gallwch hefyd ddewis cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: **www.ombwdsmon.cymru**

### Y math o weithgareddau a gefnogwyd yn flaenorol gennym

Nid ydym yn gallu cynnig enghreifftiau penodol o geisiadau a fyddai'n cael eu cymeradwyo, fodd bynnag, mae'r grant ar gael i gefnogi sefydliadau yn eu hymdrechion i gyflawni'r canlynol:

- Gwella gallu sefydliadau i ffurfio trefniadau cydweithio i fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o 5 amcan Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- Cefnogi mudiadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella cyfathrebu effeithiol, gweithio ar y cyd a throsglwyddo gwybodaeth wrth ymateb i dlodi plant ar lefel ranbarthol, leol neu gymunedol.
- Prosiectau yn dangos yn glir sut yr oedd cryfhau cydweithio drwy'r cyllid yn effeithio ar ac yn gwella profiadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi yn y dyfodol.

### Taliadau

Rhaid i bob hawliad am daliad gael ei wneud ar ffurflen hawlio'r rhaglen a'i gyflwyno i'r blwch post **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru**

Anfonir templed ffurflen hawlio atoch os cynigir grant i chi, ac os byddwch yn ei dderbyn. Bydd angen i ffurflen hawlio wedi'i llenwi gynnwys gwybodaeth fonitro ar gyfer gweithgarwch yn ystod y cyfnod hwnnw, fel y cytunwyd gyda rheolwr grantiau Llywodraeth Cymru.

Rhaid cyflwyno hawliadau bob chwarter a byddant yn amodol ar gael eu dilysu. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi digwydd a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynnig grant y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Ni ystyrir bod hawliad yn ddilys oni bai ei fod wedi'i gyflwyno i'r **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru** blwch post gyda'r holl ddogfennau ategol.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein hysbysiad preifatrwydd grantiau Llywodraeth Cymru yn egluro sut byddwn yn trin data personol ar draws pob cynllun grant er mwyn:

- Asesu ceisiadau grant neu gais am gyllid grant
- monitro perfformiad cynlluniau
- sicrhau bod grantiau wedi'u talu yn unol â'r amodau cymhwysedd a rheoli cymorthdaliadau ar gyfer y cynlluniau
- gwerthuso ac adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynlluniau
- ymchwilio i effeithiolrwydd y cynlluniau a chefnogi datblygiad polisi yn y dyfodol

Hysbysiad preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

## Cadw cofnodion

Rhaid i chi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cais a'r hawliadau am y grant hwn, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf 5 mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.

## Cysylltu

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch y grant Tlodi Plant: Cefnogi Cymunedau ac Arloesi, anfonwch nhw drwy e-bost i'r blwch post **tlodi-plant-grant-arloesi-chefnogi-cymunedau@llyw.cymru**.